

## NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

### GORWELION NEWYDD

#### Un arall o elusennau'r capel ar gyfer 2016

Mae New Horizons Mental Health Resource Centre, Aberdâr yn gweithredu ystod o ganolfannau yn cynnig adnoddau ac yn estyn llaw i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol yn RhCT. Mae'r Ganolfan yn hybu delwedd bositif ac yn herio gwahaniaethu ar sail iechyd drwy gyfrwng addysg, gweithio yn y gymuned, rhannu gwybodaeth, a chynnig cefnogaeth, ac yn cynnal prosiect arbennig i bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed.

### Y PLANT LLEIAF

Byddai'n dda petai'r plant yn gallu eistedd ym mlaen y capel am hanner cyntaf y gwasanaeth - a bydd meinciau addas gael yn fuan. Fodd bynnag, os yw rhieni gyda phlant bach yn eistedd yn y llofft, erfyniwn arnoch i fod yn ofalus i beidio gadael iddyn nhw grwydro. Mae pryder wedi ei fynegi am blant "free-range" sydd yn mynd braidd hyn agos at flaen y balconi.

### BANC BWYD PONTYCLUN

Os ydych chi'n awyddus i ymuno â'r criw brwdfrydig sy'n helpu gyda chasgliad Tesco ar gyfer y Banc Bwyd, mae'r casgliad nesa dydd lau, Gwener, Sadwrn, sef Mehefin 30, Gorffennaf 1 a 2. Cysylltwch ag Ann Dwynwen am fwy o wybodaeth: [ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com) / 029 2089 3144

### CASGLU DILLAD

#### I BLANT FFOADURIAID

Ewch i'r [Adran Newyddion](#) i weld lluniau rhai o'r plant bach mewn gwerysll i ffoaduriaid yng ngwlad Groeg yn gwisgo dillad a anfonwyd gennym ni fel aelodau'r Tabernacl. Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd mor hael at y casgliad. Byddwn yn dechrau casglu dillad gaeaf ym mis Medi, a dillad haf eto yn y gwanwyn.

Bydd y casgliad i helpu teuluoedd lleol mewn argyfwng yn dechrau eto pan fydd John Llew yn clywed gan y Gwasanaethau Cymdeithasol eu bod yn barod i dderbyn dillad ac eitemau eraill gennym.

### BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf Bwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth 28<sup>ain</sup> Mehefin. Anfonwch unrhyw adroddiadau neu faterion yr hoffech eu codi at Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk))

### GWEFAN Y CAPEL

Rydym yn diweddarau gwefan y capel yn wythnosol gyda newyddion, lluniau a chyhoeddiadau. Os hoffech fod yn rhan o'r tîm sy'n paratoi'r deunydd, cysylltwch ag Emlyn Davies [emlyn.davies@which.net](mailto:emlyn.davies@which.net)

**Mae hyfforddiant ar gael!**

### Y SULIAU NESAF

#### Gorffennaf 3:

Y Parchg. Gethin Rhys  
Gyda Gwerfyl Mores  
Taflen: Gwerfyl; Sgrin: Huw Rees

#### Gorffennaf 10:

Sul y Cyfundeb ym Mhenarth

#### Gorffennaf 17:

Sul i'r Teulu  
gyda phicnic a gemau i ddilyn

**Cyfarfod y Pwyllgor Gofal  
yn y capel Gorffennaf 17eg  
am 2:30 p.m.**

### MERCHED Y TAB

Bore Llun, Gorffennaf 4ydd  
Bore coffi am 10:30 yng nghartref  
Eifiona (35 Penywaun, Efail Isaf)  
Casgliad at Elusen Clefyd y Siwgr.  
Croeso i Bawb

### ARGYFWNG LESOTHO



Anfonwyd £1,000 o'n casgliad Lesotho misol ni i helpu Mohale's Hoek a phentref arall yn Lesotho oedd mewn angen dybryd am fwyd oherwydd cyfnod maith o sychder. Aeth yr arian drwy gronfa Gwenallt Rees, Tabernacl yr Ais, a gyrhaeddodd gyfanswm o £9,000 i gyd.